

*Patrwm cyflwyno*      *O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg damcaniaethol cyffredinol o rai o'r materion cyfoes allweddol yn yr astudiaeth fyd-eang o blentyndod a llencyndod.

### **Disgrifiad byr o'r problem**

Un o'r disgyblaethau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU yw Plentyndod ac Astudiaethau Ieuencid. Caiff ei hastudio gan bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sydd â diddordeb yn eu bywydau, a hynny ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Nid oes rhaid i chi fod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn astudio'r modiwl hwn, ond dylai fod gennych ddiddordeb yn eu profiadau, gan gynnwys mudo, anabledd, anghydraddoldeb a rhywioldeb, yn ogystal â'u bywydau digidol ac ysbrydol. Ar sail yr ymchwil arloesol hon, mae'r modiwl yn archwilio nifer o wahanol gyd-destunau bywydau plant a phobl ifanc mewn modd heriol ond gwerth chweil.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd uwch ar lefel meist, o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- Profiad o addysgu ar lefel meist ar-lein
- Gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud yn benodol â gwaith gyda phlant a phobl ifanc, neu ddiddordeb ynddynt
- Diddordeb mewn addysgu sgiliau astudio ôl-raddedig cyffredinol, neu wybodaeth am hynny
- Y gallu i addysgu myfyrwyr gradd meist a meithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth feirniadol
- Parodrwydd i ddilyn y trafodaethau byd-eang diweddaraf sy'n ymwneud â gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a rhoi sylw iddynt
- Tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol
- Tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- Y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' a gwaith cydweithredol, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- Ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes astudiaethau plentyndod a/neu ieuencid
- Y gallu i rannu trafodaethau a gwybodaeth newydd â chydweithwyr a myfyrwyr
- Ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am blant a phobl ifanc
- Ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr

*Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5